

Adolygiad Diogelu Unedig Unigol

Goleuo'r gorffennol i wneud y dyfodol yn fwy diogel

BRIFFIAD 7 MUNUD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost at: SUSRWales@llyw.cymru

CANLLAWIAU STATUDOL ADUU

- Mae'r tîm ADUU wedi adolygu'r sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod y sesiynau cyn-ymgynghori erbyn hyn. Maen nhw wedi creu dogfen ymateb a fydd yn cael ei rhannu gyda'r fersiwn ddiwygiedig o'r canllawiau statudol.

YSTORFA DDIOGELU CYMRU

- Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal er mwyn adolygu'r templed adrodd ADUU i sicrhau ei gyfatebiaeth ag YDdC.
- Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda thîm Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol y Swyddfa Gartref er mwyn canfod pa un ai a ellir cadw Adolygiadau Dynladdiad Arfau Bygythiol Lloegr o fewn YDdC.

MATERION CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

- Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn yn cynnal cyfarfod terfynol er mwyn adolygu'r canllawiau statudol drafft diwygiedig cyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol.
- Mae trafodaethau'n parhau o gwmpas Cytundeb Datgelu Data Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.

DYNLADDIAD ARFAU BYGYTHIOL

- Cyflwynir ymarfer pen bwrdd i'r grŵp hwn cyn hir, sy'n ystyried cynllun peilot ADUU/ADAB Cymru.

CEFNDIR

Creu proses adolygu unigol lle mae angen ymagwedd amlasiantaeth, gan gynnwys y prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Dynladdiad Domestig; Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol. Defnyddir yr adroddiad terfynol i hysbysu arfer proffesiynol drwy Ystorfa Ddiogelu Cymru.

CYNNYDD

- Bydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau y bydd rhanddeiliaid allweddol dal yn medru ymgysylltu â'r broses o ddatblygu'r ADUU a thu hwnt i'w gweithredu.
- Mae cyfarfod o'r Grŵp Llywio wedi'i drefnu. Bydd hwn yn gyfle i aelodau weld a chymeradwyo'r canllawiau statudol ADUU diwygiedig.
- Mae'r tîm ADUU wrthi'n tynnu ynghyd ymchwil ac adroddiadau diogelu i'w cynnwys mewn adran ar y dudalen we ADUU er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth. Os ydych chi'n gwybod am unrhyw adroddiadau/ymchwil y gellir cynnwys fan hyn, anfonwch yr hyn sydd gyda chi at y cyfeiriad e-bost uchod os gwelwch chi'n dda.

DYSGU A HYFFORDDI

- Mae logisteg Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn datblygu deunydd hyfforddi ADUU nawr yn cael ei ystyried. Gwneir hyn yn unol â gweithredu'r ADUU er mwyn sicrhau bod ymarferwyr wedi'u paratoi'n iawn ar gyfer unrhyw newidiadau.

POLISIÂU A PHROSESAU

- Mae gwaith yn parhau ar gyfer diwygio'r templed adrodd ADUU er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio ar gyfer y broses ADUU ac YDdC.

DYNLADDIAD IECHYD MEDDWL

- Bydd y grŵp hwn yn adolygu'r atodiad Dynladdiad Iechyd Meddwl i bennu pa un ai a ddylid ei gynnwys yn y canllawiau statudol neu a ddylai ffurfio rhan o'r Pecyn Offer ADUU.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.